# SL(6)551 - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) (Diwygio) 2024

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i is-ddeddfwriaeth yn ymwneud â Gwasanaethau Fferyllol yng Nghymru i:

- ddiwygio'r telerau gwasanaeth presennol ar gyfer Contractwyr Fferylliaeth Gymunedol y GIG;
- ehangu'r rheoliadau presennol ar gyfer gweinyddu, cyflenwi a darparu meddyginiaethau ac offer gan fferyllwyr cymunedol i gynnwys archebion wedi'u llofnodi a ddyroddir gan optometryddion sy'n gweithio yn y GIG yng Nghymru fel rhan o Wasanaethau Offthalmig Cyffredinol Cymru (WGOS) a gyflwynwyd yn 2023;
- cyflwyno rheoliadau i ganiatáu i fferyllfeydd a meddygon fferyllol y GIG yng Nghymru weinyddu cyffuriau yn eu pecynnau gwreiddiol.

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Caiff y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y 15 pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

### 1. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol

Mae rheoliad 1(3) o'r Rheoliadau hyn yn nodi bod *"Rheoliad 8"* yn dod i rym ar 1 Ionawr 2025. Fodd bynnag, dim ond 4 rheoliad ac un Atodlen sydd yn y Rheoliadau hyn. Ymddengys felly fod rheoliad 1(3) yn gamgymeriad.

Yn yr un modd, mae rheoliad 1(4) yn nodi hynny y daw *"pob rheoliad arall"* dod i rym ar ddyddiad diweddarach, sef 1 Ebrill 2025. Oherwydd y ddarpariaeth a nodir yn rheoliad 1(3), byddai hyn yn golygu y byddai darpariaethau ynghylch teitl a chymhwysiad tiriogaethol y Rheoliadau hyn, a'r ddarpariaeth dod i rym yn rheoliad 1(3), yn dod i rym ar 1 Ebrill 2025. Mae hyn yn anymarferol gan y byddai angen dod â'r darpariaethau hyn i rym ar yr un pryd neu cyn y rheoliad a nodir (er yn gamgymeriad) yn rheoliad 1(3).

2. **Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Yn rheoliad 2(2) o'r Rheoliadau hyn, dylid nodi bod diffiniadau i'w mewnosod yn rheoliad 2**(1)** o Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 (pwyslais wedi'i ychwanegu), yn hytrach na chyfeirio'n gyffredinol at *"rheoliad 2"*, er eglurder drafftio.

3. **Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Yn rheoliad 2(2) o'r Rheoliadau hyn, mae diffiniad o *"Gwasanaeth Presgripsiynau Electronig"* yn cael ei fewnosod i reoliad 2 o Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020. Fodd bynnag, ni ddefnyddir y diffiniad yn unman arall yn y Rheoliadau hyn nac yn nhestun presennol Rheoliadau 2020 ac, fel y cyfryw, nid yw'n glir pam yr ystyriwyd bod angen mewnosod y diffiniad hwn.

4. **Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Yn rheoliad 2(2) o'r Rheoliadau hyn, mae diffiniad ar gyfer termau "*meddyginiaeth restredig offthalmig*" a "*cyfarpar rhestredig offthalmig*" yn cael eu mewnosod i reoliad 2 o Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020. Fodd bynnag, yn hytrach na'r termau diffiniedig hyn, mae'r termau *"meddyginiaeth restredig"* a *"chyfarpar rhestredig"*, nad ydynt wedi'u diffinio at ddibenion Rheoliadau 2020, yn cael eu defnyddio yn y testun sydd i'w fewnosod yn Atodlen 5 i Reoliadau 2020 gan reoliad 3 o'r Rheoliadau hyn.

Gofynnir i Lywodraeth Cymru egluro'r bwriad drafftio y tu ôl i ddefnyddio'r termau gwahanol hyn, gan ei bod yn ymddangos y byddai wedi bod yn gliriach defnyddio'r termau diffiniedig yn y diwygiadau i Atodlen 5 i Reoliadau 2020.

5. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Yn rheoliad 2(2) o'r Rheoliadau hyn, mae'r diffiniad y *"Rhestr Gyfunol Offthalmig"* yn cyfeirio at y *"**rhestr** y mae'n ofynnol i Fyrddau Iechyd Lleol ei llunio yn rhinwedd rheoliad 10 o Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig) (Cymru) 2023"* (ychwanegwyd pwyslais).

Gofynnir i Lywodraeth Cymru egluro a yw'r *"rhestr"* yn gyfeiriad at y *"rhestr gyfunol"* y darperir ar ei chyfer yn rheoliad 10 o Reoliadau 2023, o ystyried bod rheoliad 10 hefyd yn cyfeirio at y *"rhestr offthalmig"* a'r *"rhestr atodol"*, sydd gyda'i gilydd yn gwneud y *"rhestr gyfunol"*.

6. **Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Yn rheoliad 3(3) o'r Rheoliadau hyn, ym mharagraff newydd 5A(3)(a) o Atodlen 5 i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020, mae

cyfeiriad anghywir at *"paragraff (4)"*, y dylid ei ddisgrifio fel *"is-baragraff (4)"* yn lle hynny. Mae'r un gwall yn codi ym mharagraff 5A(5) newydd o Atodlen 5 i Reoliadau 2020, lle dylai'r cyfeiriad at *"paragraff (4)"* gael ei ddisgrifio fel *"is-baragraff (4)"*.

Gallai hyn beri dryswch i'r darllenydd oherwydd bod darpariaethau fel is-baragraffau (6), (7) ac (8) ym mharagraff newydd 5A Atodlen 5 i Reoliadau 2020 yn nodi *"y mae'r paragraff hwn yn gymwys iddo"*, *"Yn y paragraff hwn"* a *"o dan y paragraff hwn"* yn y drefn honno pan ymddengys eu bod yn cyfeirio at y paragraff 5A newydd o Atodlen 5, yn hytrach nag at is-baragraffau (6), (7) ac (8) yn unig.

**7. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Yn rheoliad 3(3) o'r Rheoliadau hyn, ym mharagraff newydd 5A o Atodlen 5 i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020, mae sawl cyfeiriad at *"cyffuriau"* a *"cyfarpar"*. *Mae "cyffuriau"* yn derm diffiniedig yn rheoliad 2(1) o Reoliadau 2020, yn ogystal â *"cyfarpar"*.

Fodd bynnag, os y bwriedir i'r termau heb eu diffinio *"cyfarpar rhestredig"* a *"meddyginiaeth restredig"*, a ddefnyddir hefyd mewn sawl man ym mharagraff newydd 5A o Atodlen 5 i Reoliadau 2020, gael ystyr mwy cul na *"cyfarpar"* a *"cyffur"*, mae angen eglurder ynghylch a fwriadwyd i *"cyfarpar rhestredig"* a *"meddyginiaeth restredig"* cael eu defnyddio'n gyson drwy gydol paragraff newydd 5A. Fel arall, efallai y byddai wedi bod yn ddefnyddiol diffinio'r termau *"cyfarpar rhestredig"* a *"meddyginiaeth restredig"* at ddibenion Rheoliadau 2020 (neu ran ohonynt) i wahaniaethu eu hystyr yn gliriach mewn cyferbyniad â'r termau diffiniedig *"cyfarpar"* a *"cyffuriau"*.

**8. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Yn rheoliad 3(5) o'r Rheoliadau hyn, yn yr is-baragraffau newydd (8B) ac (8C) a fewnosodir i baragraff 9 o Atodlen 5 i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020, defnyddir y term *"meddyginiaeth a roddir ar bresgripsiwn yn unig"*. Er y cydnabyddir bod Rheoliadau 2020 eisoes yn cyfeirio at y term hwn mewn sawl man, nid yw wedi'i ddiffinio at ddibenion Rheoliadau 2020 a gallai'r Rheoliadau hyn fod wedi bod yn fecanwaith defnyddiol i ddiffinio'r term hwnnw er eglurder.

**9. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Yn rheoliad 3(5) o'r Rheoliadau hyn, yn is-baragraff (8C)(b) newydd a fewnosodir i baragraff 9 o Atodlen 5 i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020, cyfeirir at y *"fferyllydd cofrestredig sy'n gwneud y ddarpariaeth neu'n goruchwylio'r ddarpariaeth yn* ***uniongyrchol****…"* (ychwanegwyd pwyslais). Fodd bynnag, yn rheoliad 3(4) o'r Rheoliadau hyn, mae'r ymadrodd *"uniongyrchol"* yn cael ei hepgor o'r ymadrodd *"…dan*

*oruchwyliaeth **uniongyrchol** fferyllydd cofrestredig"* (pwyslais wedi'i ychwanegu) mewn cyd-destun tebyg ym mharagraff 9(2) o Atodlen 5 i Reoliadau 2020.

Gofynnir i Lywodraeth Cymru egluro a oedd bwriad i'r darpariaethau hyn, sy'n ymddangos mewn cyd-destun tebyg, fod ag ystyr gwahanol drwy ddefnydd neu fel arall o'r termau *"uniongyrchol"* neu *"yn uniongyrchol"*.

**10. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Yn rheoliad 3(14)(a) o'r Rheoliadau hyn, yn y testun newydd a fewnosodir i baragraff 23(6)(a) o Atodlen 5 i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020, cyfeirir at *"is-baragraff (6)(c)"*. Fodd bynnag, mae'r croesgyfeiriad hwn yn anghywir oherwydd nad oes is-baragraff (6)(c) ym mharagraff 23 o Atodlen 5 i Reoliadau 2020, ac nid yw'r ddarpariaeth honno wedi'i mewnosod gan y Rheoliadau hyn ychwaith.

**11. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Yn rheoliad 3(16) o'r Rheoliadau hyn, yn is-baragraff newydd (6B) a fewnosodir ym mharagraff 23 o Atodlen 5 i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020, dylai'r cyfeiriad ar y diwedd at *"paragraff (6)"* fod *"is-baragraff (6)"*. Gallai hyn beri dryswch i'r darllenydd gan fod yr un ddarpariaeth yn cyfeirio'n gywir yn gynharach at *"is-baragraff (2)"*, sydd ar yr un lefel â *"paragraff (6)"*.

**12. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Yn rheoliad 3(18) o'r Rheoliadau hyn, ym mharagraff 28(3)(a)(iv) newydd o Atodlen 5 i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020, defnyddir y gair "*dylai*" wrth gyfeirio at ofyniad.

Er y cydnabyddir bod y gair "*dylai*" yn cael ei ddefnyddio mewn sawl man yn nhestun presennol Rheoliadau 2020 (fel ym mharagraff 28(3)(a)(i) a (iv) o Atodlen 5, a pharagraff 17(3)(a)(i) a (iv) o Atodlen 6), gofynnir i Lywodraeth Cymru egluro a ddylid bod wedi defnyddio'r gair *"rhaid"* mewn perthynas â'r gofyniad.

**13. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Ym mharagraff 2 o'r Atodlen i'r Rheoliadau hyn, yn y diffiniad newydd o *"optometrydd cymhwysol"* sydd i'w fewnosod yn rheoliad 2 o Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig) (Cymru) 2023, cyfeirir at *"Restr Gyfunol Offthalmig" Bwrdd Iechyd Lleol*. Fodd bynnag, nid yw'r term hwn wedi'i ddiffinio at ddibenion Rheoliadau 2023.

Mae'r term *"rhestr gyfunol"* yn cael ei ddiffinio at ddibenion Rheoliadau 2023 gan reoliad 2 o Reoliadau 2023. Felly, mae'n ymddangos mai'r term *"rhestr gyfunol"* y dylid bod wedi'i

ddefnyddio yn y diffiniad newydd o *"optometrydd cymhwysol"* ym mharagraff 2 o'r Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

**14. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Ym mharagraff 3 o'r Atodlen i'r Rheoliadau hyn, yn y rheoliad 4A(1) newydd o Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig) (Cymru) 2023, mae'n nodi *"Bydd optometrydd cymhwysol* ***yn*** *archebu…"* (ychwanegwyd pwyslais). Fodd bynnag, mae'r defnydd o "*yn*" yn anghyson â'r rheoliad 4B newydd a ganlyn o Reoliadau 2023, a fewnosodir hefyd gan baragraff 3 o'r Atodlen i'r Rheoliadau hyn, sy'n nodi *"**Ni chaiff** optometrydd cymhwysol archebu…"*.

Felly, nid yw'n glir a oes bwriad i'r termau gwahanol a ddefnyddir gyfleu ystyr gwahanol.

**15. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Ym mharagraff 3 o'r Atodlen i'r Rheoliadau hyn, yn y rheoliad 4B newydd o Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig) (Cymru) 2023, mae'n nodi na chaiff optometrydd cymhwysol archebu "*cyffuriau*" neu "*teclynnau*" (ychwanegwyd pwyslais). Fodd bynnag, yn wahanol i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020, nid yw'r termau hynny wedi'u diffinio at ddibenion Rheoliadau 2023.

Mae'r rheoliad 4A newydd yn Rheoliadau 2023, sydd hefyd wedi'i fewnosod gan baragraff 3 o'r Atodlen i'r Rheoliadau hyn, yn cyfeirio at optometrydd cymhwysol yn archebu *"meddyginiaethau rhestredig offthalmig"* neu *"declynnau rhestredig offthalmig"*, sy'n dermau diffiniedig newydd a fewnosodir yn rheoliad 2 o Reoliadau 2023 gan baragraff 2 o'r Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

Nid yw'n glir felly a ddylai'r rheoliad 4B newydd o Reoliadau 2023 hefyd ddefnyddio'r termau diffiniedig newydd, yn hytrach na'r geiriau *"cyffuriau"* neu *"declynnau"*, nad ydynt wedi'u diffinio at ddibenion Rheoliadau 2023.

## Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 9 Rhagfyr 2024 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.